OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 577

# Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018 a daw i rym ar 1 Mehefin 2018.

(2) Mae'r diwygiadau a wneir gan—

(a) erthygl 2(2), (3), (4)(a) a (5); a

(b) erthyglau 3(8) a 4;

yn cael effaith o 1 Ebrill 2015.

(3) Mae'r diwygiadau a wneir gan erthygl 3(2) i (7) a (9) yn cael effaith o 6 Ebrill 2006.

(4) Mae'r diwygiadau a wneir gan erthygl 2(4)(b) yn cael effaith o 1 Rhagfyr 2006.

(5) Mae'r diwygiad a wneir gan erthygl 5 yn cael effaith o 31 Rhagfyr 2016([1]).

([1]) Mae pŵer i roi effaith ôl-weithredol wedi ei roi gan adran 12(1) o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 a chan adran 34(3) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.